Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd :** | Tiwtor Sgiliau Hanfodol neu Diwtor Sgiliau Hanfodol o dan hyfforddiant | **Lleoliad :** | Swyddfa Llanisien, Caerdydd gyda theithio cyson o amgylch De Cymru |
| **Adran :** | Prentisiaethau | **Cyflog :** | Graddfa 4 neu 3 os o dan hyfforddiant, yn symud i raddfa 4 wedi blwyddyn o wasanaeth a chwblhau'r hyfforddiant a ddarparwyd (pro-rata os yn 28 awr) |
| **Oriau Gwaith :** | Llawn amser (35 awr yr wythnos), neu 28 awr dros 4 diwrnod | **Cytundeb :** | Parhaol |
| **Yn adrodd i :** | Rheolwr Sgiliau ac Anawsterau Dysgu | **Rheolaeth Llinell :** | Dim |

**Prif bwrpas y swydd:**

Prif bwrpas y rôl yw i diwtora grwpiau ac unigolion er mwyn iddynt lwyddo i ennill cymwysterau sgiliau hanfodol rhifedd, cyfathrebu a llythrennedd digidol.

**Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol:**

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd ag hyfforddiant i'w gymhwyso i ddarparu cymwysterau Sgiliau Hanfodol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cychwyn gweithio tuag at gymwysterau ymarferwr Sgiliau Hanfodol.

Byddent hefyd yn derbyn arweiniad a chymorth gan staff profiadol, ynghyd ag amryw o gyfleoedd hyfforddi eraill.

---

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:**

1. Trefnu hyfforddiant ac asesiadau er mwyn i ddysgwyr medru cyflawni eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol.
2. Cynnal hyfforddiant (tu fewn a thu fas i'r ystafell ddosbarth) AON, COMMS a Llythrennedd Digidol o lefel Mynediad 3 i Lefel 3.
3. Tiwtora dysgwyr mewn grwpiau o wahanol feintiau ac mewn sefyllfa 1:1 pan yn briodol i sicrhau llwyddiant yn y cymwysterau.

4. Defnyddio canlyniadau asesiadau diagnostig i fedru cynllunio a chefnogi cynlluniau dysgu.
5. Ysgrifennu adolygiadau ar gynnydd dysgwyr.
6. Cyfathrebu gwybodaeth ynglŷn â chynnydd a chymorth angenrheidiol dysgwyr i aseswyr eu cymwysterau craidd.
7. Creu adnoddau, ble'n briodol.
8. Dilyn y canllawiau i gyrraedd gofynion y cyrff gwobrwyo ac i gefnogi'r dysgwyr yn llawn.
9. Mynychu cyfarfodydd safoni mewnol.
10. Cynnal ffeiliau dysgwyr mewn modd priodol, gan sicrhau cydymffurfiaeth a chywirdeb.
11. Gweithio mewn modd sy'n sicrhau'r cyfle gorau o lwyddiant i'r dysgwyr.
12. Gweithio mewn modd sydd yn hybu cynhwysiant, cydraddoldeb a pharch at eraill.

---

**Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| **<u>Hanfodol:</u>** | **<u>Dymunol:</u>** |
|---|---|
| 1. TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg A*-C neu gymwysterau Sgiliau Hanfodol Lefel 2.<br>2. Sgiliau Iaith ragorol yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br>3. Sgiliau rhifedd rhagorol.<br>4. Sgiliau a dealltwriaeth ddigidol ragorol a'r awydd i gadw'ch dealltwriaeth yn gyfredol.<br>5. Meddu ar ysfa i gefnogi unigolion i ddatblygu sgiliau o'r safon uchaf posib.<br>6. Cymhwyster Ymarferydd Sgiliau Hanfodol – neu brofiad lefel uchel cyfwerth (ar gyfer y rôl graddfa 4 yn unig) | 1. Cymhwyster tiwtor neu brofiad cyfwerth.<br>2. Profiad blaenorol o ddarparu cymwysterau Sgiliau Hanfodol.<br>3. Profiad blaenorol o weithio yn y sector Dysgu yn y Gweithle neu Addysg Bellach.<br>4. Cymhwyster Ymarferydd Sgiliau Hanfodol.<br>5. Cymhwyster Asesu neu IQA. |

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**:  Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

**Hyblygrwydd**: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Hydref 2023 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

---

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

---

**Gwiriadau Perthnasol**: Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).